

Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad

Cyngor Sir Gaerfyrddin Gwasanaethau Plant

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron 2024 WG51255 ISBN Digidol 978-1-83715-065-6

1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant yn Sir Gaerfyrddin ym mis Hydref 2024.

1.2 Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Rydym yn ystyried y safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru* a'r llinellau ymholi allweddol. Rydym yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf):

1.3 Pobl – llais a rheolaeth

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?
- A oes arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel ynghyd â gweithlu cymwys a medrus iawn a gefnogir, sy'n gweithio tuag at weledigaeth a rennir?

1.4 Atal

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, a bod anghenion yn cael eu hatal rhag gwaethygu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?
- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo gwydnwch mewn cymunedau ac yn cefnogi pobl i wireddu eu potensial drwy annog a chefnogi pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas?

1.5 Llesiant

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?
- I ba raddau y mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar sail gwybodaeth er mwyn iddynt allu gwireddu eu potensial yn llawn a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl?

1.6 Partneriaeth

- I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

- A yw pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at y broses o ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal?

2. Rhestr Terminoleg

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad 1.

3. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Arolygiad – Gwasanaethau Plant

3.1 Mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i gael eu cyflawni mewn cyd-destun o alw uchel ac anghenion cynyddol gymhleth ymhlith plant yn dilyn y pandemig. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn nifer y cysylltiadau misol y mae Tîm Atgyfeiriadau Canolog y gwasanaethau plant yn eu cael, sydd wedi cynyddu o 759 ym mis Ebrill 2022 i 1570 ym mis Gorffennaf 2024.

3.2 Mae partneriaid yn gweithio'n unol ag ethos cyffredin o ddiogelu plant. Mae uwch-arweinwyr yn yr awdurdod lleol yn cyfleu gweledigaeth a rennir a dull cadarnhaol o gydweithio ar draws cyfarwyddiaethau. Mae'r rheolwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gydweithio.

3.3 Mae gan yr arweinwyr olwg clir o ymarfer rheng flaen, ac mae podiau (grwpiau o staff sy'n cydweithio i fynd i'r afael â sefyllfaoedd teuluol) yn gweithio'n effeithiol ar lefel weithredol i sicrhau diogelwch a llesiant plant gan ddefnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd a chyfleoedd i hyfforddi a cheir cyfathrebu clir rhwng staff strategol a gweithredol am newidiadau a datblygiadau yn y gwasanaeth.

3.4 Ar y cyfan, ceir cydweithio da ym mhob rhan o'r awdurdod lleol. Ceir gwaith partneriaeth strategol cadarnhaol ynghyd â chymorth corfforaethol ar gyfer nodau cyffredin. Ar lefel weithredol, mae partneriaid yn cydweithio'n dda i ddiwallu anghenion llesiant plant yn ogystal â chadw pobl yn ddiogel. Mae enghreifftiau o ymarferwyr ar draws asiantaethau yn gweithio mewn ffordd ystyrlon gyda phlant.

3.5 Yn gyffredinol, mae ffocws cadarnhaol ar blant ar draws asiantaethau partner. Mae staff o sectorau a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio'n effeithiol i atal anghenion rhag gwaethygu. Mae partneriaid wedi ymrwymo i gydweithio i ddiogelu plant sy'n wynebu risg o niwed a chamdriniaeth. Mae hyn yn amlwg drwy gyfranogiad cadarnhaol partneriaid mewn cyfarfodydd a thrafodaethau amlasiantaeth pwysig, a cheir ffocws clir ar gryfderau a risgiau o fewn teuluoedd. Mae angen gwneud rhai gwelliannau i'r broses o gasglu gwybodaeth ynghyd a chofnodi dadansoddiad.

3.6 Caiff lleisiau pobl eu clywed, a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar feithrin cydberthnasau cefnogol a llawn ymddiriedaeth â phobl. Mae dystiolaeth bod llawer o bobl yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.

3.7 Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau a bod anghenion yn cael eu hatal rhag gwaethygu, ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth – Gwasanaethau Plant

Rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau allweddol a'n dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor y Ddeddf. Gall yr adroddiad hefyd gynnwys gwelliannau gofynnol a nodwyd yn adroddiadau blaenorol AGC er mwyn pwysleisio eu perthnasedd a'u pwysigrwydd ar hyn o bryd.

Pobl – Llais a Dewis

Cryfderau

4.1 Mae ymarfer cadarnhaol yn amlwg yng ngweledigaeth a rennir y cyngor a'i ddealltwriaeth o'r hyn y mae angen ei ddatblygu ar draws yr awdurdod lleol, ynghyd â ffocws cryf ar wella gwasanaethau plant. Mae her a chymorth priodol drwy broses wleidyddol a chorfforaethol yn amlwg, a chaiff diwylliant cadarnhaol o ddiogelu ei hyrwyddo fel cydgyfrifoldeb i bawb.

4.2 Mae ymarfer cadarnhaol yn amlwg yn y trefniadau arwain a chydweithredu cryf yn y gwasanaethau plant sy'n arwain at gyflawniad gweithredol sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau plant. Caiff prosesau cynllunio trawsnewid eu cefnogi'n llawn ac mae grŵp newydd o reolwyr gwasanaethau plant yn cydweithio i ysgogi gwelliannau.

4.3 Mae cymorth a goruchwyliaeth y rheolwyr yn amlwg, a dywed ymarferwyr eu bod yn croesawu'r cymorth, gan ddweud bod y rheolwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Ceir disgrifiadau amrywiol yn y cofnodion goruchwyllo o'r sgysiau a geir am ddatblygiad proffesiynol a llesiant (gan gynnwys y sgysiau hynny â gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso) a gellid gwella cysondeb yn hynny o beth. Caiff penderfyniadau ynghylch diogelu eu goruchwyllo gan y rheolwyr a cheir cyfleoedd rheolaidd i fyfrio ar ymarfer drwy gyfarfodydd podiau.

4.4 Mae'r gweithlu yn sefydlogi yn erbyn cyd-destun o newid ar lefel reoli ac mae'n symud i ffwrdd oddi wrth yr heriau annisgwyl a wynebwyd yn sgil y pandemig. Ceir ymarferwyr newydd gymhwyso a rheolwyr amhrofiadol ar draws strwythurau'r gwasanaethau plant. Gall hyn ychwanegu at yr her sy'n gysylltiedig â diogelu plant ar draws gweithgarwch amlasiantaeth, ond mae'n cael ei reoli'n briodol a dywed staff ar draws timau fod diwylliant agored a chefnogol ar waith.

4.5 Mae'r podiau yn cyfuno elfennau o'r model Arwyddion Diogelwch, dulliau sy'n ystyriol o drawma a dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn datblygu cynlluniau gofal a chymorth. Mae gan ymarferwyr barch mawr atynt, ac maent yn cynnig lle diogel i wneud penderfyniadau ar y cyd, yng nghwmni rheolwyr. Mae cyfarfodydd podiau yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr fyfyrio, herio ei gilydd mewn modd adeiladol ac ystyried safbwyntiau proffesiynol a meysydd arbenigedd gwahanol.

4.6 Mae ffocws ar gyfathrebu ar draws y gwasanaethau plant drwy ddigwyddiadau fel 'Big Meets' (fforwm i bob aelod o staff) a chylchlythyrau, sy'n helpu i ymgysylltu â'r staff. Gellir mynd i'r afael â materion ar bob lefel ar draws timau. Caiff camau eu cymryd pan fydd staff yn codi materion.

4.7 Un maes ymarfer cadarnhaol yw'r buddsoddiad y mae'r awdurdod lleol wedi ei wneud mewn menter 'tyfu eich hun'. Mae'r dull hwn o gefnogi staff drwy gynlluniau hyfforddi a noddi gweithwyr cymdeithasol bellach yn talu ar ei ganfed wrth i staff newydd gymhwyso gael eu penodi i swyddi. Mae'n gadarnhaol nodi bod yr awdurdod lleol wedi recriwtio unigolion i rai swyddi ychwanegol gan gynnwys cadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant a swyddogion adolygu annibynnol. At hynny, mae'r awdurdod lleol yn defnyddio staff dros dro (gweithwyr asiantaeth) i gefnogi timau.

4.8 Mae'r gweithlu yn ymroddedig ac yn ymrwymedig, ac mae'n gweithio'n unol ag ethos sy'n canolbwyntio'n amlwg ar y plentyn. Mae'r ymarferwyr yn dangos cadernid a sgiliau cyfathrebu da ynghyd â ffocws ar feithrin cydberthnasau cefnogol a llawn ymddiriedaeth â phobl. Dywedodd pobl fod gweithwyr cymdeithasol yn dangos empathi a sgiliau gwranddo a chafodd hyn ei ategu gan ganlyniadau ein harolwg pobl.

4.9 Mae pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn nodi ymarfer cadarnhaol wrth ddisgrifio cymorth eu cynghorwyr personol a'u cydberthnasau â nhw. Mae'r cynghorwyr personol yn eiriolwyr cadarn dros bobl ifanc. Maent yn adnabod y bobl ifanc yn dda ac yn ofalgar, yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i wella eu bywydau. Maent yn cynnig help a chynghor ymarferol i'r bobl ifanc, sy'n gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei gael. Clywsom enghreifftiau o'r effaith gadarnhaol yr oedd cymorth gan gynghorwyr personol wedi ei chael ar lesiant pobl ifanc a'u cynnydd mewn perthynas â'u nodau a'u cynlluniau. Dywedodd ambell berson ifanc y byddai cael cymorth gan gynghorydd personol yn gynt wedi bod o fudd iddo.

4.10 Mae'r rheolwyr, yr ymarferwyr a'r swyddogion adolygu annibynnol yn adnabod y plant y maent yn gweithio gyda nhw ac yn eu deall. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r plant ac yn blaenoriaethu amser i wrando arnynt. Yn yr un modd, mae'r swyddogion adolygu annibynnol yn blaenoriaethu amser i siarad â'r plant. Mae'r adborth gan ofalwyr, rhieni a phlant yn ategu hyn. Gwnaethant ddweud bod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn dangos sgiliau rhyngpersonol allweddol.

4.11 Yn gyffredinol, ceir ymgysylltu da â phobl, ac mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda theuluoedd i'w cynnwys mewn penderfyniadau am eu bywydau. Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn amlwg ar draws gwasanaethau a thimau, gyda rhywfaint o amrywiaeth i ba raddau y caiff safbwyntiau pobl eu cofnodi mewn asesiadau. Caiff plant eu gweld fel rhan o asesiad, yn yr ysgol lle bo angen a gartref, a chaiff eu safbwyntiau am fywyd gartref eu cofnodi'n glir. Caiff safbwyntiau rhieni eu cynrychioli'n dda hefyd ac mae cofnodion penodol a pherthnasol yn amlwg. Mae rhai cofnodion a ysgrifennwyd yng ngeiriau'r plentyn ei hun yn llwyddo i gynrychioli safbwynt y plentyn yn arbennig o dda. Mae nodi safbwyntiau pobl yn eu geiriau eu hunain mewn cofnodion yn faes y gellid ei ddatblygu ymhellach.

4.12 Yn gyffredinol, ceir presenoldeb da gan rieni mewn cynadleddau amddiffyn plant. Mae hyn yn golygu bod rhieni yn cael cyfleoedd da i fod yn rhan o drafodaethau am gynnydd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

4.13 Mae enghreifftiau o waith sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Dywedodd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw wrthym am bwysigrwydd a gwerth gwaith uniongyrchol, gan gynnwys gwaith stori bywyd sy'n eu helpu i ddeall eu hanes, eu hunaniaeth a'r rheswm pam maent yn derbyn gofal.

4.14 Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael cynnig gwasanaeth eirioli gan Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol statudol mewn ffordd ragweithiol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Mae plant a phobl ifanc yn cael cynnig gwasanaeth eirioli mewn ffordd ragweithiol. Bydd darparwr y gwasanaeth eirioli yn gofyn barn y plant sy'n cael y gwasanaeth a bydd yn cyflwyno adroddiad chwarterol ar berfformiad er mwyn monitro nifer y plant sy'n manteisio ar y cymorth hwn.

4.15 Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn eirioli'n gadarn dros hawliau plant. Dywedodd un person ifanc:

"I was asked whether I wanted an advocate. I said no because I am able to speak for myself and my social worker is able to advocate for me very well. I trust her, she is very understanding, very open and involved."

4.16 Mae'r awdurdod lleol yn goruchwylio gallu ei weithlu yn y Gymraeg er mwyn gallu darparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'n ymrwymedig i atgyfnerthu hyn. Mae'r rhan fwyaf o dimau yn cynnwys rheolwyr neu ymarferwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg, ac mae pump o'r wyth gweithiwr dyletswydd yn y Tîm Atgyfeiriadau Canolog yn gallu siarad Cymraeg. Caiff y Cynnig Rhagweithiol ei gofnodi drwy atgyfeiriadau ac asesiadau.

4.17 Manteisir ar gyfleoedd ymgynghori wrth gynllunio gwasanaethau. Mae'r grŵp Gweithio Gyda'n Gilydd yn cynnwys craidd o rieni/gofalwyr ymrwymedig a deallus. Maent yn cyflawni rôl werthfawr wrth gynrychioli llais gofalwyr. Nid yw hyn bob amser yn golygu y gellir cyflawni'r newidiadau y mae pobl am eu gweld, ond dywedodd rhieni/gofalwyr fod eu safbwyntiau'n cael eu clywed.

4.18 Mae rhieni yn gwneud cyfraniad amlwg at y gofal a'r cymorth y maen nhw a'u plant yn eu cael, er enghraifft drwy gyfrannu at gyfarfodydd a'r broses o ddatblygu cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.

4.19 Mae gan blant ag anableddau ddewis o ran y cymorth y maent yn ei gael drwy daliadau uniongyrchol ac adnoddau cymunedol. Mae ymdrechion i fod yn greadigol a cheir proses glir ar gyfer adolygu anghenion, a phwyslais ar alluogi pobl i fod yn annibynnol lle bo hynny'n bosibl.

Meysydd i'w Gwella

4.20 Gall cofnodion rhai sesiynau goruchwyllo llwyth gwaith a chyfarfodydd podiau fod yn gyfarwyddol yn hytrach na dadansoddol, gan ganolbwyntio ar roi crynodeb disgrifiadol o'r hyn sydd wedi digwydd. **Rhaid cynnwys camau gweithredu a chamau nesaf clir mewn cofnodion fel mater o drefn.**

Llesiant

Cryfderau

4.21 Yn gyffredinol, mae'r ymarfer diogelu yn seiliedig ar ystyriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch plant, wedi'i chydwyso ag ystyriaeth o gryfderau eu teuluoedd. Mae enghreifftiau o esboniadau trylwyr o sefyllfaoedd teuluol cymhleth drwy gyfarfodydd podiau ac mewn asesiadau. Yn gyffredinol, caiff risgiau posibl i frodyr a chwiorydd eu hystyried fel rhan o'r broses ddiogelu. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelu cyd-destunol a'r risgiau ehangach sy'n gysylltiedig â diogelwch plant.

4.22 Caiff sgrysiâu anodd a gonest eu cynnal yn briodol ac o ganlyniad, mae llawer o bobl ifanc a'u teuluoedd yn barod i weithio mewn ffordd agored a chydweithredol â gweithwyr cymdeithasol. Caiff risgiau eu rheoli mewn ffordd gadarnhaol a gwrandewir ar safbwyntiau plant, rhieni ac aelodau eu teulu, a chânt eu deall.

4.23 Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael ymateb amserol ac effeithiol pan gaiff anghenion neu risg eu nodi gyntaf. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym:

“The local authority responds to safeguarding matters promptly and effectively. They take concerns seriously and act swiftly to assess and address risks. Their clear protocols and collaboration with relevant agencies ensure that safeguarding issues

are managed with a high level of professionalism and care. Additionally, they maintain open communication with all parties involved, which helps ensure that the safety and well-being of individuals are prioritised throughout the process.”

4.24 At ei gilydd, caiff cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal eu cynnal mewn modd amserol, er bod rhai cyfarfodydd wedi cael eu gohirio eleni gan nad oedd cadeirydd ar gael. Ar y cyfan, caiff adroddiadau gweithwyr cymdeithasol eu rhannu â rhieni mewn modd amserol cyn cynadleddau. Rhoddir y cyfle i rieni a phlant, lle y bo'n briodol, siarad â chadeiryddion er mwyn rhannu eu safbwyntiau. Mae gwaith effeithiol gan y swyddog adolygu annibynnol yn sicrhau trylwyrdd annibynnol ychwanegol. Mae'n ymweld â phlant ac yn monitro cynnydd rhwng adolygiadau fel bod cynlluniau plant yn cael eu rhoi ar waith yn ddi-oed.

4.25 Mae cyfarfodydd cyfreithiol a chynllunio sefydlogrwydd yn cynnig ffordd o olrhain cynlluniau plant yn ystod cam cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ac mae'r cyfarfodydd hyn fel arfer yn cefnogi penderfyniadau amserol, yn atal oedi ac yn sicrhau, yn y rhan fwyaf o achosion, bod gwaith yn mynd rhagddo o fewn terfynau amser addas i'r plant.

4.26 Mae'r cyfarwyddiadau sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar risg a ddefnyddir ar draws systemau gwasanaethau plant a phartneriaid yn helpu i gynnig dealltwriaeth a rennir ac i sicrhau y defnyddir iaith gyffredin. Gall hyn roi eglurder am sefyllfaoedd teuluol a ffordd o gyfathrebu'n fwy effeithiol.

4.27 Mae'r ymarferwyr yn adnabod y bobl ifanc yn dda ac yn siarad am eu cryfderau a'u personoliaethau mewn ffordd gynnes a charedig. Maent yn falch o'u cyflawniadau ac yn eirioli ar eu rhan er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi. Maent yn cymryd amser i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r plant, sy'n helpu'r plant i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau. Dywedodd un rhiant:

'Don't know where we would be as a family without the input of children's services. They have improved my life and my children's lives for the better. I have happier children and a happier home. They work with me, for example the safety plan. We read it together, I can add to it, and then I sign it off.'

4.28 Mae cofnodion ymweliadau statudol yn arsylwadol ac yn canolbwyntio ar y plentyn, ac mae sgysiau am Yr Hyn sy'n Bwysig yn amlwg. Mae hyn yn helpu i ddeall profiadau bywyd plant, eu pryderon a'r hyn sy'n bwysig iddynt. I lawer o blant, mae'r ymweliadau hyn a'r ymyriadau a roddir ar waith, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae'r tîm Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches yn helpu pobl ifanc i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, a cheir ffocws ar eu hanghenion diwylliannol.

4.29 Mae plant a'u teuluoedd yn cael budd o ddull systemig amlddisgyblaethol. Mae cyfarfodydd podiau yn rhan greiddiol o hyn ac er eu bod yn cael eu harwain gan y gwasanaethau plant yn bennaf, maent yn cynnig amser gwarchoddedig i reolwyr, ymarferwyr a seicolegwyr gydweithio i fyfyrion ar ofal a chymorth, gyda phwyslais ar waith cynllunio diogelwch sy'n canolbwyntio ar y teulu. Mae'r podiau yn cynnig cyfle i wneud penderfyniadau ar y cyd am sefyllfaoedd cymhleth.

4.30 Caiff teuluoedd eu hystyried yn rhan ganolog o gynlluniau amddiffyn gofal a chymorth a cheir pwyslais ar ddull sy'n seiliedig ar gryfderau o reoli risgiau a chyflawni canlyniadau da. Mae bron pob asesiad yn cynnwys cofnod o hanes perthnasol y rhieni a chofnod o risgiau hanesyddol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, er nad oedd hyn wedi'i ystyried yn llawn nac wedi'i ddwyn ynghyd fel rhan o ddadansoddiad clir mewn nifer bach o ffeiliau.

4.31 Defnyddir canllawiau ar gamfanteisio ar blant, ac mae arferion cadarn ar waith i gadw plant yn ddiogel. Roedd rhai sefydliadau partner o'r farn y gellid gwella hyn drwy gynnal cyfarfodydd wedi'u cysoni'n strategol er mwyn rhannu gwybodaeth a chynllunio i drafod dioddefwyr a throeddwyr. Mewn rhai awdurdodau lleol eraill, yr enw cyffredin ar gyfarfodydd o'r fath yw cyfarfodydd Amlasiantaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae cytundeb amlasiantaeth eisoes ar waith i fwrw ati â Chynllun Gweithredu Sir Gaerfyrddin ar gyfer Strategaeth Camfanteisio ar Blant.

Meysydd i'w Gwella

4.32 Yng nghofnodion nifer bach o'r ffeiliau, nid oedd y rhesymeg dros benderfyniadau yn ddigon clir, ac roedd oedi amlwg wedi bod wrth ddatblygu cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth eglur. **Rhaid gwella cysondeb cofnodion er mwyn sicrhau eglurder ynghylch risg, diogelwch a'r hyn y mae angen ei wneud er mwyn rhoi sicrwydd am ddiogelwch.**

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau mwy o gysondeb mewn asesiadau drwy bennu a chofnodi canlyniadau personol cliriach a dadansoddi cryfderau, rhwystrau a risgiau yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Dylid gwella cofnodion cyfarfodydd podiau hefyd drwy gynnwys cofnod cliriach o sgysiau'r pod, gan ganolbwyntio ar ddadansoddi a phennu camau penodol i fynd i'r afael â risg. Mae'r maes hwn i'w wella eisoes wedi cael ei gydnabod gan reolwyr, ac mae hyfforddiant eisoes wedi'i gynllunio.

4.33 Dylai'r awdurdod lleol sicrhau datblygiad parhaus y tîm Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches Tîm bach yw'r tîm hwn a chaiff ymgyrch recriwtio ei chynnal yn fuan er mwyn llenwi swyddi cynghorwyr annibynnol. Bydd hyn yn bwysig er mwyn darparu cymorth ymarferol a gwaith sgiliau bywyd. Dylid hefyd rhoi blaenoriaeth i ehangu cymorth amlasiantaeth i'r grŵp penodol hwn o blant.

Atal

Cryfderau

4.34 Mae gweithwyr proffesiynol yn nodi plant y mae angen eu cefnogi a'u hamddiffyn ac yn cofnodi eu pryderon yn unol â hynny. Roedd y rhan fwyaf o bartneriaid o'r farn bod cyfathrebu da a 'drws agored' er mwyn cael cyngor yn y gwasanaethau plant. Dywedodd ymarferwyr gwasanaethau plant fod dealltwriaeth a rennir o drothwyon wedi gwella; ac at ei gilydd, roedd dealltwriaeth a rennir yn amlwg yn ein gweithgarwch arolygu ac eithrio mewn nifer bach o'r ffeiliau a welwyd. Yn yr achosion hyn, roedd gwahaniaeth barn rhwng asiantaethau o ran y ffordd orau o fynd i'r afael â sefyllfaoedd teuluol cymhleth.

4.35 Mae'r Tîm Help Cynnar ac Asesu yn cynnal sgysiau amserol am yr hyn sy'n bwysig er mwyn nodi risgiau a chamau gweithredu. Caiff y rhan fwyaf o drafodaethau strategaeth ac ymholiadau adran 47 eu cynnal mewn modd amserol gan gynnwys yr asiantaethau cywir, sy'n cyfrannu'n dda at benderfyniadau.

4.36 Cynhaliwyd Adolygiad i Ystyried Systemau Help Cynnar er mwyn adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes ar waith a datblygu dull amlasiantaeth o ymdrin â help cynnar yn yr awdurdod lleol. Mae hyb Help Cynnar yn cael ei ddatblygu lle mae partneriaid statudol a thrydydd sector yn cydweithio'n agos i gefnogi teuluoedd yn gynt, gan leihau achosion o ddyblygu a mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau.

4.37 Mae cynllun peilot amlasiantaeth i bobl ifanc 14-17 oed wedi bod ar waith er haf 2024. Ei nod yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd er mwyn helpu i drwsio cydberthnasau sydd wedi chwalu a lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn dod yn ddigartref. Bydd ail gam y cynllun peilot yn dod o hyd i ffyrdd o gyrraedd pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn a'u teuluoedd yn gynt nag ymyriadau statudol.

4.38 Mae'r tîm llesiant emosiynol yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ac yn galluogi teuluoedd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt drwy fodel therapiwtig a chymorth seicolegol. Mae'r tîm hwn hefyd yn cynnig hyfforddiant i ymarferwyr, gan felly ehangu gwybodaeth a set sgiliau'r gweithlu ehangach. Mae nifer o wasanaethau ar gael i ddiwallu anghenion emosiynol plant mewn ysgolion fel y tîm Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg, ymarferwyr sy'n ystyriol o drawma, cwnsela mewn ysgolion a seicoleg addysgol.

4.39 Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod nifer cynyddol o bobl ifanc sydd ag anghenion niwroddatblygiadol ac anghenion iechyd meddwl ar yr un pryd nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl statudol. Mewn ymateb i oedi cyn cael asesiadau drwy'r bwrdd iechyd lleol, mae'r awdurdod lleol yn datblygu llwybr anghenion niwroddatblygiadol er mwyn galluogi teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Bydd ffocws ar symud i ffwrdd oddi wrth ddull a arweinir gan ddiagnosis i ddull a arweinir gan anghenion ar draws asiantaethau yn rhan greiddiol o hyn. Nododd rhieni ddau faes pwysig i'w datblygu yn y maes hwn, sef pobl ifanc yn y grŵp oedran 15/16 oed a phlant 0-3 oed (diagnosis a'r cyfnod pontio).

4.40 Mae rhieni yn canmol ansawdd y gwasanaeth seibiannau byr ac yn nodi ei fod yn bwysig iawn i'w llesiant. Mae'r gwasanaethau plant wrthi'n adolygu'r maes hwn ar

hyn o bryd, gan fod y galw presennol yn llawer mwy na'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n gadarnhaol nodi bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig a'u cynnal. Mae hyn yn darparu ffocws pwysig a chilir ar rôl gofalwyr a rhieni.

4.41 Mae Llamau, a gomisiynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys yn effeithiol o ran cynnig cyfweliad dychwelyd adref i bob plentyn a pherson sydd wedi bod ar goll, gyda chydysniad y rhieni. Mae Llamau yn cynnig sesiynau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac yn gwneud atgyfeiriadau ymlaen at wasanaethau eraill. Mae gwaith amlasiantaeth da yn mynd rhagddo rhwng Llamau ac asiantaethau partner a cheir cyfathrebu da ynghylch plant a phlant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll yn aml.

Meysydd i'w Gwella

4.42 Mae dod o hyd i leoliadau a all ddiwallu anghenion cymhleth rhai plant yn her, ac mae nifer bach o blant wedi'u lleoli ar hyn o bryd mewn gwasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth nad ydynt wedi'u cofrestru fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae'n gadarnhaol nodi buddsoddiad ychwanegol mewn gofal preswyl i blant a ffocws ar ddatblygu cartrefi plant yr awdurdod lleol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i sicrhau llety digonol yn yr ardal i blant sy'n derbyn gofal yn unol â Rhan 6 o'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o'r Ddeddf.** Gwnaethom edrych ar amgylchiadau person ifanc sy'n byw mewn lleoliad anghofrestredig oherwydd anawsterau wrth drefnu lleoliad cofrestredig addas. Mae'r lleoliad yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y person ifanc, gan alluogi cymorth parhaus gan wasanaethau lleol yn Sir Gaerfyrddin.

4.43 Mewn gwasanaethau maethu, **rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio i wella argaeledd gofalwyr maeth er mwyn diwallu anghenion pob plentyn y mae angen lleoliad maeth arno.** Cydnabyddir bod yr awdurdod lleol wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth maethu. Yn dilyn yr adolygiad ac arolygiad AGC yn gynharach eleni, cafodd cynllun gweithredu ei roi ar waith. Mae'n gadarnhaol nodi buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau maethu a ffocws ar farchnata a recriwtio.

4.44 Mae galw am ddarpariaeth seibiannau byr i blant anabl, ac mae rhestrau aros am wasanaethau. Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth seibiannau byr i rieni a phlant ag anabledd yn fawr, ond nodwyd bod problemau weithiau'n codi gan fod y cymorth hwn yn gallu cael ei ganslo ar fyr rybudd oherwydd diffyg darpariaeth a'r ffaith bod gwelyau yn cael eu defnyddio o ganlyniad i flaenoriaethau brys. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod digon o leoliadau lleol addas a digon o gyfleoedd cymdeithasol, hamdden, hyfforddiant a chyflogaeth i blant sy'n byw gydag anabledd. Mae hefyd angen sicrhau y caiff cyfnodau pontio eu cynllunio mewn modd amserol ac y caiff llwybr clir ei ddatblygu ar gyfer pobl ifanc 19-25 oed ag anabledd sy'n gadael addysg bellach.**

4.45 Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff mesurau sicrhau ansawdd eu gwella'n barhaus. Mae gwybodaeth rheoli perfformiad/setiau data da ar gael, ond

mae rhai bylchau pwysig o ran y data byw sydd ar gael i reolwyr. Er enghraifft, nid yw amllder ymweliadau â phlant a enwir ar y gofrestr amddiffyn plant yn glir oherwydd mater adrodd/cofnodi. Mae angen eglurder ynghylch amllder ac ansawdd grwpiau craidd hefyd. Ni chaiff cyfarfodydd pob grŵp craidd eu cynnal mor aml ag sydd ei angen. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod grwpiau craidd amlasiantaeth yn cael eu cynnal yn gyson o fewn y terfyn amser gofynnol gan fod y cyfarfodydd hyn yn hanfodol i adolygu a diweddarau cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth. Mae'n galonogol gweld bod rheolwyr yn cael data drwy adroddiad misol ar berfformiad ar hyn o bryd, a drafodir yng nghyfarfodydd y rheolwyr.

4.46 Bydd yr awdurdod lleol yn cyflwyno system TG newydd yn fuan, a rhagwelir y bydd y system hon yn cynnig ffordd well o gofnodi gwybodaeth a data amser real er mwyn galluogi rheolwyr tîm i reoli meysydd perfformiad allweddol yn well. **Yn y cyfamser, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i ganolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl gyfrifoldebau statudol, a chraffu ar hynny.**

Partneriaeth

Cryfderau

4.47 Mae partneriaeth yn faes ymarfer cadarnhaol o ganlyniad i'r cydberthnasau proffesiynol adeiladol sydd i'w gweld ar draws asiantaethau. Mae gan yr arweinwyr, y rheolwyr a'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o brofiadau'r plant a'r teuluoedd y mae angen cymorth ac amddiffyniad arnynt.

4.48 Siaradodd rhanddeiliaid mewn ffordd gadarnhaol am eu cydberthnasau â'r awdurdod lleol, a dywedodd un:

"I would rate the partnership with social services as highly effective. There is a strong, collaborative relationship characterised by open communication, mutual respect, and a shared commitment to delivering the best outcomes for those we support. Social services are responsive, engaged, and proactive in addressing issues and coordinating services. This partnership has enabled us to provide more comprehensive, integrated support to individuals, enhancing the overall quality of care."

4.49 Yn gyffredinol, mae'r asiantaethau partner yn deall y trothwyon. Mae gweithwyr proffesiynol yn nodi plant y mae angen help ac amddiffyniad arnynt ac yn cofnodi eu pryderon yn briodol. Mae enghreifftiau o atgyfeiriadau priodol ac o gofnodion dyletswydd i roi gwybod sy'n cael eu cadw gan asiantaethau partner.

4.50 Mae partneriaid yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn dangos ffocws cadarnhaol ar weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu, ac yn ymrwymedig i wneud hynny. Yn gyffredinol, caiff gwybodaeth ei rhannu'n briodol ac mewn modd amserol, gan gynnwys pan gaiff pryderon am ddiogelwch plant eu nodi. Er enghraifft, mae gwaith partneriaeth

cadarnhaol yn amlwg yn y broses ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac mewn cyfarfodydd DASH (cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd sy'n canolbwyntio ar gyd-destun cam-drin domestig). Mae'n gadarnhaol nodi bod data gwasanaethau plant ar gyfer y cyfnod diweddar, sef Ebrill 2024 - Mehefin 2024, yn dangos mai ymchwiliadau ar y cyd a gynhaliwyd gan yr heddlu a'r gwasanaethau plant oedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau amddiffyn plant.

4.51 Ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaeth mewn cyfarfodydd amddiffyn plant a drefnir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru ac mewn cyfarfodydd plant sy'n derbyn gofal.

Meysydd i'w Gwella

4.51 Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella o dan yr egwyddor hon.

5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

6. Methodoleg

Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 29 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pump.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu ag 16 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr drwy gyfweiliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom ymgysylltu â 48 o gyflogeion yr awdurdod lleol a'r aelod etholedig arweiniol ar gyfer y gwasanaethau plant drwy gyfweiliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom ymgysylltu â 15 o weithwyr proffesiynol o sefydliadau partner drwy gyfweiliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio'r staff.
- Gwnaethom arsylwi ar un cyfarfod pod.

- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddsbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn <https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>.

7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn, oherwydd cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr arolygiad gwerthuso perfformiad hwn yn Gymraeg.

8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru

Atodiad 1

Rhestr Terminoleg

Term	Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau
Rhaid	Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo gymryd camau.
Dylai	Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n golygu bod yr awdurdod lleol yn methu â chyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.
Ymarfer cadarnhaol	Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.
Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethgu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu.
Llais a Rheolaeth	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant a chyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.
Llesiant	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
Cydgynhyrchu	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n

	golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.
Gwaith amlasiantaethol	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
Yr hyn sy'n bwysig	Mae sgysiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed.